# Y Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Dysgu a Sgiliau (Cymru)

## LS(3)-10-08(p.1): 13 Tachwedd 2008

### Papur gan y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau

**1 Cyflwyniad**

1.1 Mae'r papur hwn yn cynnwys gwybodaeth ar gais y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 14 Hydref.

1.2 Gofynnodd y Pwyllgor am fanylion bandiau ar gyfer pob ardal awdurdod lleol; gwybodaeth am gynrychiolaeth ar Rwydweithiau 14-19; eglurhad ynghylch trefniadau Swyddogion Rhwydwaith ar gyfer Llwybrau Dysgu 14-19 a sylwadau ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a'r hawl i o leiaf 30 cwrs astudiaeth.

**2 Bandiau**

2.1 Cyfarfu Swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru  â chynrychiolwyr pob Rhwydwaith 14-19 i drafod a chytuno ar fand priodol ar gyfer pob un o'r ardaloedd awdurdod lleol. Mae naw ardal awdurdod lleol wedi cytuno i'w gosod ym Mand A, pump wedi cytuno i'w gosod ym Mand B ac wyth wedi dewis Band C.

2.2 Yn nhabl 1 isod nodir y bandiau ar gyfer pob ardal awdurdod lleol

**Tabl 1: Bandiau Awdurdodau Lleol**

| Band A | Band B | Band C |
|---|---|---|
| Blaenau Gwent | Sir Gaerfyrddin | Ynys Môn |
| Caerffili | Castell-nedd Port Talbot | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Caerdydd | Sir Benfro | Ceredigion |
| Sir Ddinbych | Rhondda Cynon Taf | Conwy |
| Sir Fynwy | Torfaen | Sir y Fflint |
| Casnewydd | | Gwynedd |
| Abertawe | | Merthyr Tudful |
| Bro Morgannwg | | Powys |
| Wrecsam | | |

**3 Cynrychiolaeth Darparwyr**

3.1 Mae gan bob Rhwydwaith 14-19 gynrychiolaeth ar eu grwpiau Rhwydwaith o blith Sefydliadau Addysg Bellach, Awdurdodau Addysg Lleol, ysgolion a darparwyr hyfforddiant. O gyfarfod y Pwyllgor roedd yn ymddangos bod yna gryn ddiddordeb mewn perthynas â darparwyr hyfforddiant. Yn y tabl isod ceir yr wybodaeth ddiweddaraf gan Rwydweithiau 14-19 o ran ymrwymiad darparwyr hyfforddiant.

**Tabl 2: Cynrychiolaeth Darparwyr Hyfforddiant ar Rwydweithiau 14-19**

| Rhwydwaith | Cynrychiolaeth/Ymrwymiad Darparwyr Hyfforddiant |
|---|---|
| Ynys Môn | Un darparwr hyfforddiant yn cael ei gynrychioli ar y Rhwydwaith. Mae darparwyr hyfforddiant hefyd wedi'u cynrychioli ar bob grŵp cwricwlwm a chanddynt rôl arweiniol ar rai blaenoriaethau. |
| Blaenau Gwent | Canolfan Adnoddau Busnes (Aelod o'r Rhwydwaith) |
| Pen-y-bont ar Ogwr | Mae darparwyr hyfforddiant wedi'u cynrychioli gan I-SA Training fel aelod o'r Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol (NTF). Mae I-SA training hefyd wedi'i gynrychioli ar Grŵp Ansawdd Pen-y-bont ar Ogwr. Mae ACT (darparwr hyfforddiant preifat) hefyd yn derbyn grant adnoddau gan y Rhwydwaith i gynorthwyo gyda datblygiadau anogwyr dysgu. Mae darparwyr hyfforddiant yn mynychu pob digwyddiad a seminar 14-19. |
| Caerffili | Cynrychiolir darparwyr hyfforddiant ar y Rhwydwaith. |
| Caerdydd | Cynrychiolir darparwyr hyfforddiant ar y Rhwydwaith ac maent hefyd yn cyfarfod â'r Rheolwr Cyfleoedd Estynedig. Cynhelir cyfarfodydd un ac un pellach drwy gydol y flwyddyn. Ar hyn o bryd mae tua 20 o ddarparwyr hyfforddiant yn cyflenwi yn Rhwydwaith Caerdydd. |
| Sir Gaerfyrddin | Mae'r Rhwydwaith 14-19 yn cael ei ailstrwythuro. Mae Darparwyr Hyfforddiant wedi'u cynnwys ymysg aelodaeth y grŵp newydd hwn. |
| Ceredigion | Cynrychiolir darparwyr hyfforddiant ar y Rhwydwaith. |
| Conwy | Hyfforddiant Gogledd Cymru (Aelod o'r Rhwydwaith)<br><br>Arweiniodd y darparwr hyfforddiant Brosiect Comisiynu ar ddatblygu sgiliau allweddol mewn addysg waithganolog. |
| Sir Ddinbych | Hyfforddiant Gogledd Cymru (Aelod o'r Rhwydwaith).<br><br>Mae gan Hyfforddiant Gogledd Cymru gynrychiolaeth lawn ar bob un o'r grwpiau Rhwydwaith ac yn darparu cyrsiau ar gyfer dysgwyr 14-19 gyda chymorth y Rhwydwaith. |
| Sir y Fflint | Hyfforddiant Gogledd Cymru (Aelod o'r Rhwydwaith)<br><br>Mae Hyfforddiant Gogledd Cymru yn aelod gweithredol o'r grŵp ac yn cyfrannu i raglen gwella'r cwricwlwm yng Nghyfnod Allweddol 4, ac wedi arwain datblygiad prosiect entrepreneuriaeth ar gyfer grŵp targed o ddysgwyr. Mae Hyfforddiant Gogledd Cymru hefyd yn derbyn cymorth gan y rhwydwaith ar gyfer Anogwyr Dysgu a Sgiliau Sylfaenol/Allweddol. |
| Gwynedd | Mae un darparwr hyfforddiant wedi'i gynrychioli ar y Rhwydwaith. Hefyd, cynrychiolir darparwyr hyfforddiant ar bob grŵp cwricwlwm ac mae ganddynt rôl arweiniol ar rai blaenoriaethau. |
| Merthyr Tudful | Cynrychiolir darparwyr hyfforddiant ar y Rhwydwaith. |
| Sir Fynwy | Cynrychiolir darparwyr hyfforddiant ar y Grŵp Gorchwyl Cwricwlwm a'r Grŵp Cymorth ac Arweiniad. |

| | |
|---|---|
| Castell-nedd Port Talbot | Aelodau o'r Rhwydwaith:<br>Pathways Training<br>Uned Sgiliau a Hyfforddiant |
| Casnewydd | Aelodau o'r Rhwydwaith:<br>Acorn Training<br>ISA Training |
| Sir Benfro | PRP Training (Aelod o'r Rhwydwaith)<br>Mae Swyddogion Rhwydwaith hefyd yn mynychu'r fforwm Darparwyr hyfforddiant er mwyn sicrhau fod pob darparwr wedi'u hysbysu ynghylch datblygiadau 14-19. |
| Powys | Mae Cadeirydd y Rhwydwaith yn gynrychiolydd darparwyr hyfforddiant. |
| Rhondda Cynon Taf | Educ 8 (Aelod o'r Rhwydwaith) |
| Abertawe | Mae dau gynrychiolydd darparwyr hyfforddiant ar y Rhwydwaith. |
| Torfaen | Aelodau o'r Rhwydwaith:<br>Hyfforddiant Torfaen<br>Lufthansa Technical Training<br>Newport Training |
| Bro Morgannwg | Aelodau o'r Rhwydwaith:<br>Cardiff Military Preparation College<br>ISA Training |
| Wrecsam | Mae 3 darparwr dysgu seiliedig ar waith yn aelodau o'r Rhwydwaith 14-19. |

4 Swyddogion

4.1 Mae Llwybrau Dysgu 14-19 yn darparu hyd at £75k yr un i bob Rhwydwaith 14-19 ar gyfer cydgysylltu a gweinyddu'r Rhwydwaith. Gall strwythurau cyflenwi amrywio o Rwydwaith i Rwydwaith er mwyn adlewyrchu'r amrywiaeth o ran anghenion ac amgylchiadau lleol. Amlinellir y trefniadau presennol yn Nhabl 3 isod.

**Tabl 3: Rhwydweithiau 14-19: Swyddogion**

| **Rhwydwaith** | **Swyddogion** |
|---|---|
| Ynys Môn | Mae cydweithio rhwng Gwynedd ac Ynys Môn wedi caniatáu i'r Rhwydweithiau ddatblygu tîm 14-19 lleol yn cynnwys 4 aelod - mae pob aelod yn gyfrifol am agweddau penodol oddi mewn i'r agenda Llwybrau Dysgu [Strategol/Cwricwlwm/Cymorth Personol ac Anogwr Dysgu] |

| | |
|---|---|
| Blaenau Gwent | Swyddog Datblygu (Amser llawn), Rheolwr Prosiectau Cyfalaf (0.1 fte), Rheolwr Rhaglen (0.2 fte) a Rheolwr Rhwydwaith. |
| Pen-y-bont ar Ogwr | Cyflogir dau berson ar secondiad, yn gyfrifol am drefniadau cwricwlwm cydweithredol a gwaith Dewislenni. Mae yna hefyd Ysgrifennydd 14-19 i gefnogi'r agenda. |
| Caerffili | Mae yna dîm o 4 person. |
| Caerdydd | Mae gan y tîm 14-19 3 aelod o staff. Cynghorydd 14-19 (wedi'i ariannu gan yr Awdurdod Lleol), Swyddog 14-19, a Rheolwr Cyfleoedd Estynedig sy'n gweithio'n benodol ar reoli'r Dewislenni Cydweithredol yng Nghaerdydd. |
| Sir Gaerfyrddin | Cydgysylltydd Rhwydwaith (0.6fte) a Gweinyddwr Rhwydwaith. Ceir cymorth hefyd gan uwch-gynghorydd o'r AALl, sydd â chyfrifoldeb dros 14-19 ac ansawdd. |
| Ceredigion | Rheolwr Rhwydwaith, Cynorthwyydd Clerigol a Chydgysylltydd Rhwydwaith |
| Conwy | Cydgysylltydd Strategol (0.4 fte), rheolwr rhwydwaith (0.6 fte) a chymorth gweinyddol (0.2 fte). |
| Sir Ddinbych | Cydgysylltydd Rhwydwaith a swyddog gweinyddol amser llawn |
| Sir y Fflint | Swyddog Datblygu a Gweinyddwr |
| Gwynedd | Mae cydweithio rhwng Gwynedd ac Ynys Môn wedi caniatáu i'r Rhwydweithiau ddatblygu tîm 14-19 lleol yn cynnwys 4 aelod - mae pob aelod yn gyfrifol am agweddau penodol oddi mewn i'r agenda Llwybrau Dysgu [Strategol/Cwricwlwm/Cymorth Personol ac Anogwr Dysgu] |
| Merthyr Tudful | Mae tîm o 4 person |
| Sir Fynwy | Rheolwr Strategol (0.6fte)<br>Swyddog Gweithredol (0.6fte)<br>Swyddog Cyllid amser llawn a Chymorth Gweinyddol |
| Castell-nedd Port Talbot | Cydgysylltydd Rhwydwaith amser llawn |
| Casnewydd | Cydgysylltydd14-19 a swyddog rhwydwaith ansawdd. |
| Sir Benfro | 3 swyddog rhan-amser ar gyfer y Rhwydwaith 14-19, sef; Y Rheolwr Newid ar gyfer y rôl strategol arweiniol (0.6fte); Cydgysylltydd Sgiliau Galwedigaethol ar gyfer rheolaeth weithredol cynlluniau 14-19 drwy'r Cynllun Datblygu Rhwydwaith Blynyddol (0.5fte); a Chymorth Ariannol a Gweinyddol (0.2fte) |
| Powys | Un Cydgysylltydd Rhwydwaith14-19, ac un Rheolwr Prosiect 14-19 |
| Rhondda Cynon Taf | Cynrychiolydd Rhwydwaith, Swyddog Cyllid a Swyddog Gweinyddol/Gwerthuso. |

| | |
|---|---|
| Abertawe | Swyddog Ymchwil a 2 swyddog cydgysylltu. |
| Torfaen | Cefnogir y Cydgysylltydd 14-19 gan yr Awdurdod Addysg Lleol. Mae yna hefyd Swyddog Monitro Cyllid a Swyddog Cynorthwyol 14-19. |
| Bro Morgannwg | Cydgysylltwyr Llwybrau Dysgu 14-19 [dau berson yn rhannu swydd]. |
| Wrecsam | Cydgysylltydd Rhwydwaith 0.6fte, Gweinyddwr 0.6fte a Swyddog Cyllid 0.2 fte.<br>Mae Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam ar y cyd hefyd yn cyflogi person i gydgysylltu addysg waithganolog/ addysg gysylltiedig â gwaith |

**5 Ffurfio Cwricwlwm Lleol**

5.1 Nid yw'r Mesur arfaethedig yn nodi cyfrwng iaith. Polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru yw hybu mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg a'i datblygu ymhellach. Lle bo darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn bodoli, y bwriad polisi yw y dylai fod hawl sylfaenol i 30 cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn eu cyflwyno'n llawn yn 2012. Yn y cyswllt hwn bydd ysgolion cyfrwng Cymraeg yn syrthio islaw trefniadau bandio yr awdurdodau lleol perthnasol ac yn symud tuag at yr hawl sylfaenol i 30 cwrs ar yr un raddfa ag ysgolion cyfrwng Saesneg yn yr ardal o 2009 ymlaen. Bydd unrhyw ganllawiau perthnasol ynglŷn â'r mesur arfaethedig yn nodi'r bwriadau o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg.